# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Cwm Derwen

Cylch Meithrin Cwm Derwen
Ysgol Gynradd Gymraeg Cwm Derwen
Beech Grove
Oakdale
Coed Duon
NP12 0JL

Dyddiad yr arolygiad: Mai 2025

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

a

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Cwm Derwen

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Cwm Derwen |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | Cylch Meithrin Cwm Derwen |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Katie Szekely |
| Person â gofal | Katie Szekely |
| Nifer y lleoedd | 16 |
| Amrediad oedran y plant | 2 mlwydd oedd – 4 mlwydd oed. |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 10 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 7 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i Ddydd Gwener 12.00 – 2.30 |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg ac yn gwneud pob ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 19 Hydref 2021 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Gorffennaf 2018 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 13/05/2025 |

# Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

**Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.**

## Argymhellion

A1 Cryfhau'r modd mae ymarferwyr yn defnyddio'r Gymraeg i ymestyn medrau llafar y plant

A2 Parhau i ddatblygu rôl y pwyllgor rheoli i fireinio'r gweithdrefnau arfarnu a goruchwylio

A3 Datblygu partneriaethau o fewn y gymuned leol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Lles: Da

Mae llawer o blant yn hapus ac yn mwynhau cwmni eu ffrindiau a'r ymarferwyr wrth iddynt gymdeithasu gyda'i gilydd. Maent yn gwneud dewisiadau'n hyderus ac yn mwynhau'r rhyddid i symud o amgylch yr ardaloedd dysgu. Er enghraifft, maent yn dewis os ydynt am chwarae dan do neu yn yr ardal agored. Mae bron pob un o'r plant yn ymuno â grwpiau o ffrindiau yn ôl eu dymuniadau. Maent wrth eu boddau yn dewis adnoddau gan fod ganddynt amser a mynediad rhwydd i ardaloedd chwarae. Er enghraifft, maent yn mwynhau arbrofi gyda thoes, adeiladu gyda blociau, a rhoi cynnig ar brofiadau crefft ac arlunio. Mae llawer o blant yn gyfforddus i ofyn am gymorth wrth fynd i'r tŷ bach, i gwblhau cwrs rhwystrau, neu ddod o hyd i adnoddau penodol fel poteli chwistrellu er mwyn dyfrio planhigion.

Mae bron pob un o'r plant yn setlo'n gyflym, ac wrth gyrraedd yn mynd ati i gyfarch eu ffrindiau, cyn cerdded gyda'i gilydd i'r lleoliad. Maent yn awyddus wrth drefnu eu bagiau cyn eistedd yn gyffrous ar gyfer y sesiwn cofrestru a chanu byr. Mae plant yn ymdopi'n dda ac yn teimlo'n ddiogel a chartrefol. Maent yn gyfarwydd â'u hamgylchedd ac arferion y sesiwn, ac yn ceisio agosrwydd ymarferwyr neu ffrindiau wrth ymuno â gweithgareddau. Maent yn hyderus i alw enwau'r ymarferwyr pan mae angen ac yn dangos bod ganddynt ymdeimlad o berthyn. Mae llawer o blant yn datblygu eu dealltwriaeth o'u hunaniaeth, megis mwynhau edrych ar lyfrau 'Dyma Fi' unigol y plant ar y silff lyfrau, gan bwyntio'n frwdfrydig at arddangosfa o'u gwaith arlunio.

Mae llawer o blant yn rhyngweithio'n dda ac yn datblygu eu medrau cymdeithasol. Maent yn mwynhau cwmni ffrindiau ac yn dysgu i rannu. Er enghraifft, mae plant wrth eu bodd yn cael cyfleoedd i arddio gan aros eu tro i blannu pys. Maent yn cydweithio'n brysur i lenwi sosbenni yn y gegin fwd, ac yn sgwrsio'n hapus am beth i'w ychwanegu i'r gymysgedd. Wrth wneud, maent yn datrys a dewis offer megis llwyau a jygiau bach i symud y dŵr o un sosban i'r nesaf. Maent yn gwenu a chwerthin wrth gwblhau tasgau megis y cwrs rhwystrau ac yn mwynhau eu perthnasoedd cynnes â'r ymarferwyr.

Mae llawer o blant yn frwdfrydig ac yn dyfalbarhau'n fwriadus wrth ddysgu. Er enghraifft, wrth arbrofi yn yr ardal allanol, maent yn diddori yn yr ardal chwarae rôl, gan werthu a phrynu o'r stondin marchnad. Maent yn dysgu enwi llysiau megis asbaragws ac yn llenwi basgedi a ffrwythau neu ddefnyddio'r til. Mae llawer o blant yn canolbwyntio am gyfnodau i ddyfrio'r blodau a'r llysiau tra mae eraill yn datblygu eu medrau corfforol ar sgwteri, beiciau a llethrau'r ardal allanol. Wrth lwyddo, mae llawer o blant yn awyddus i geisio eto.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau annibynnol da, er enghraifft wrth fynd i’r tŷ bach a golchi a sychu eu dwylo heb gymorth. Maent yn ymfalchïo yn eu llwyddiannau megis defnyddio’r ffynnon ddŵr eu hunain, arllwys diodydd yn annibynnol a dangos balchder wrth gwblhau cyfrifoldebau ‘helpwr y dydd’.

### Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Mae bron pob plentyn yn gwneud cynnydd priodol o’u mannau cychwyn unigol ac yn datblygu ystod o fedrau yn effeithiol wrth chwarae a dysgu. Maent yn ddysgwyr chwilfrydig. Mae bron pob plentyn yn gwneud cynnydd addas wrth ddatblygu eu medrau cyfathrebu yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad. Maent yn cynyddu eu geirfa yn gyson gan ei defnyddio mewn cyd-destun perthnasol, er enghraifft wrth ofyn am ddiod adeg byrbryd ac wrth ateb i’r gofrestr. Maent yn gwrando’n ofalus ar ymarferwyr a phlant eraill ac yn ymateb yn briodol wrth siarad ag ymwelwyr. Mae’r rhan fwyaf o blant yn edrych ar lyfrau gydag oedolyn ac yn ymateb yn briodol i’r stori. Mae’r rhan fwyaf yn defnyddio amrywiaeth o offer marcio yn effeithiol. Maent yn creu patrymau yn y tywod a’r toes ac yn creu marciau ar bapur i gyfleu geiriau, er enghraifft wrth dorri eu henwau wrth ochr eu llun.

Mae’r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cadarn yn eu datblygiad mathemategol ac yn defnyddio iaith fathemategol gywir wrth gyfri sawl llwyaid o flawd hyd at 5 ac enwi siapiau 2D wrth chwarae gyda’r toes. Maent yn cymhwyso gwybodaeth fathemategol yn briodol wrth chwarae yn yr ardaloedd gwahanol gan drafod gwrthrychau sydd yn fwy neu yn llai na’i gilydd.

Mae medrau digidol y rhan fwyaf o blant yn datblygu’n briodol. Maent yn defnyddio botymau siarad i recordio eu hunain yn siarad a chanu ac yn eu defnyddio i wrando ar gyfarwyddiadau syml. Mae bron pob un o’r plant yn arddangos medrau datrys problemau cryf. Er enghraifft, maent yn ystyried pa gynhwysydd yw’r un gorau i ddal y dŵr heb orlifo. Mae bron pob un o’r plant yn dyfalbarhau â’r dasg hyd nes iddynt ei chwblhau.

Mae bron pob un o’r plant yn dangos medrau corfforol cryf. Maent yn defnyddio ystod eang o adnoddau yn briodol drwy gerdded ar hyd y cwrs rhwystrau a chicio a dal peli. Mae medrau modur mân bron pob un o’r plant yn gryf. Er enghraifft, maent yn gosod gleiniau ar linyn i greu neidr hir a defnyddio gefel bwyd i ddewis brechdan adeg byrbryd.

Mae bron pob un o’r plant yn dangos medrau creadigol cadarn. Maent yn gwneud dewisiadau effeithiol am beth i’w ddefnyddio i greu eu gwaith, er enghraifft wrth ddewis lliw paent i beintio deilen i greu pili-pala.

Mae medrau personol, cymdeithasol ac emosiynol bron pob un o’r plant yn gryf. Maent yn hollol annibynnol wrth gyd-chwarae gyda’u ffrindiau ac yn dangos parch tuag at gyfraniadau eraill.

## Gofal a datblygiad: Da

Mae ymarferwyr yn deall eu cyfrifoldebau i gadw plant yn ddiogel ac yn blaenoriaethu eu hiechyd a'u diogelwch yn llwyddiannus. Maent yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau cadarn yn effeithiol. Mae ymarferwyr yn deall eu cyfrifoldebau i ddiogelu plant, ac wedi cwblhau hyfforddiant diogelu plant priodol, yn hyderus wrth ddilyn polisi a gweithdrefnau clir. Maent yn asesu anghenion y plant yn ddyddiol. Er enghraifft, maent yn ystyried pwysigrwydd eli haul yn ystod tywydd heulog, yn sicrhau'r defnydd o hetiau haul a digon o ddŵr i yfed. Maent wedi mynychu hyfforddiant cymorth cyntaf priodol ac yn cadw cofnodion cywir ar gyfer damweiniau a digwyddiadau.

Mae ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau hylendid cadarn yn ystod cyfnodau snac ac yn annog y plant i olchi eu dwylo yn rheolaidd. Maent yn darparu bwydlen amrywiol ac iachus ac yn deall eu cyfrifoldebau i ddiogelu plant ag alergeddau. Yn ogystal, mae ganddynt weithdrefnau clir i weinyddu meddyginiaeth. Maent yn sicrhau urddas a phreifatrwydd llwyr wrth ddilyn polisi newid cewynnau ac yn cofnodi'r arferion hyn yn ddyddiol. Maent yn deall eu cyfrifoldebau i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol, ac mae ganddynt rwydweithiau effeithiol a gweithdrefnau pwrpasol i'w dilyn, pan fo angen. Mae gan ymarferwyr system gofrestru drwyadl a threfnus ac mae ganddynt gofnodion caniatâd yn eu lle. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae gan ymarferwyr berthynas annwyl â'r plant ac maent yn eu trin â gofal a pharch. Maent yn garedig ac yn modelau rôl da wrth ryngweithio'n gynnes. Maent yn cymryd eu hamser i wrando ac egluro mewn modd tyner sydd yn creu awyrgylch parchus ac ymdeimlad o berthyn. Mae ymarferwyr yn canmol y plant yn gyson ac yn eu cefnogi i ddyfalbarhau â gweithgareddau. Er enghraifft, wrth blannu, maent yn annog y plant i gymryd eu hamser, a rhoi cynnig arall ar dasgau. Mae ymarferwyr yn sgwrsio'n gyson wrth ymyl y plant ac yn deall pryd i ymyrryd, neu gynnig cymorth a chlod. Mae llawer o ymarferwyr yn defnyddio'r Gymraeg ac yn datblygu eu hyder wrth weithio gydag eraill.

Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda iawn ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'u hanghenion a'u dymuniadau unigol. Maent yn angerddol yn y profiadau dysgu maent yn eu darparu ac mae eu brwdfrydedd yn cael effaith gadarnhaol ar brofiadau dysgu'r plant. Mae ymarferwyr yn arsylwi'r plant yn barhaus ac yn defnyddio dulliau effeithiol megis tynnu lluniau a chofnodi cyflawniadau'r plant er mwyn bwydo'r broses gynllunio a'r camau nesaf. Maent yn ymfalchïo yn eu system o gofnodi cyflawniadau dyddiol y plant lle mae'r ymarferwyr i gyd yn cyfrannu a thrafod syniadau a medrau unigol y plant.

## Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Mae'r ymarferwyr, drwy wrando'n llwyddiannus ar lais y plant, yn llwyddo i gynllunio profiadau dysgu i hybu diddordeb bron pob plentyn. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o ddatblygiad plant a'r ffordd mae plant yn dysgu drwy chwarae ac arbrofi. Maent yn sicrhau bod y plant yn cael mynediad di-dor rhwng yr ardal allanol a'r ardal tu fewn. O ganlyniad, maent yn annog annibyniaeth y plant ac yn datblygu chwilfrydedd y plant yn effeithiol. Maent yn rhoi cyfleoedd buddiol i'r plant gymryd risgiau addas, er enghraifft drwy lywio beiciau i lawr y llethr ar yr iard o dan oruchwyliaeth ofalus yr ymarferwyr er mwyn profi cyflymder teithio i lawr y llethr.

Mae gan yr ymarferwyr afael addas ar yr iaith Gymraeg ac maent yn cyfathrebu'n briodol â'r plant ar adegau mwy ffurfiol. Yn yr arfer orau, maent yn modelu iaith lafar gan gyflwyno geirfa ac ymadroddion yn bwrpasol, er enghraifft yn ystod cyfnod byrbryd neu amser cylch. Er hyn, nid ydynt yn darparu cyfleoedd digonol i ddatblygu medrau llafar y plant.

Mae'r ymarferwyr yn meithrin perthynas gryf iawn â'r plant ac wedi creu awyrgylch gartrefol iawn. O ganlyniad, mae'r plant yn setlo'n gyflym ac yn awyddus i archwilio ac arbrofi yn syth ar ôl cyrraedd y lleoliad. Mae'r ymarferwyr wedi creu ardal ddarllen ddeniadol sy'n cynnwys llyfr personol "Dyma Fi" y plant. Mae hyn yn magu diddordeb ym medrau cyn ddarllen y plant yn effeithiol. Mae'r ymarferwyr yn darparu ystod o gyfleoedd i'r plant ddechrau marcio ac i ddatblygu eu medrau cyn ysgrifennu cynnar. Maent yn dechrau deall bod marciau'n cynrychioli geiriau, er enghraifft drwy ddechrau torri eu henwau ar eu gwaith celf. Mae'r ymarferwyr yn darparu ystod effeithiol o adnoddau a chyfleoedd i ddatblygu medrau rhifedd y plant. Mae'r rhan fwyaf yn rhifo'n gywir wrth osod gleiniau ar linyn i greu neidr hir.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer darparu medrau corfforol yn gryf. Mae ymarferwyr yn darparu amrediad o adnoddau pwrpasol sy'n caniatáu i'r plant ddatblygu medrau cydbwyso corfforol cadarn. O ganlyniad, maent wrth eu bodd yn defnyddio'r beiciau, sgwteri, peli a rhwystrau. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad cymdeithasol, moesol, diwylliannol ac ysbrydol y plant yn gadarn. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau cyfleoedd i ddysgu am ddigwyddiadau diddorol mewn diwylliannau eraill. Maent yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o'u Cymreictod a'u cynefin yn fedrus, er enghraifft wrth ddathlu Sul y Cofio gan greu a gosod torch pabi o flaen y senotaff lleol.

Mae'r ymarferwyr yn arsylwi'n gyson ac yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir yn llwyddiannus i gynllunio gweithgareddau sy'n hybu datblygiad y plant. Maent yn barod i addasu eu cynllunio er mwyn ymateb i anghenion a diddordebau'r plant.

## Yr amgylchedd: Da

Mae arweinwyr yn sicrhau amgylchedd diogel a glân.Mae ganddynt fesurau cadarn i sicrhau bod mynediad diogel i'r safle ysgol a bod mynediad i'r adeilad a chofnodion ymwelwyr yn cael eu rheoli'n ofalus. Mae gweithdrefnau cynnal a chadw'r lleoliad yn effeithiol ac mae arweinwyr yn sicrhau bod ymarferion tân yn digwydd yn rheolaidd. Maent yn cynnal asesiadau risg pwrpasol sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae arweinwyr yn cadw cofrestr presonoldeb ar gyfer plant ac ymarferwyr, ac yn sicrhau bod cymarebau ymarferwyr i blant yn gywir ar bob adeg.

Mae arweinwyr yn darparu amgylchedd cynhwysol o ansawdd da sy'n groesawgar a chynnes. Maent yn darparu toiledau addas a chyfleusterau newid cewynnau preifat a phwrpasol. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o'r lleoliad a chyfleusterau'r safle a mynediad i'r ardal allanol sy'n caniatáu chwarae a llif parhaus a diogel i blant. Yn y brif ystafell, mae arweinwyr yn cynnig amgylchedd agored lle mae celfi bach ac unedau storio llawn adnoddau yn hybu annibyniaeth y plant. Mae'r ardal tu allan yn cynnig profiadau ysgogol i blant. Er enghraifft, ceir ardaloedd cysgodol ac arwyneb caled ar lethr sy'n cynnig heriau a chyfleoedd i blant gymryd risg wrth feithrin medrau corfforol. Mae arweinwyr yn sicrhau cyfleoedd buddiol i ddatblygu chwilfrydedd y plant. Er enghraifft, tu allan, mae gan blant fynediad i gwtsh llyfrau, offer go iawn fel brwshys sgubo a chaniau dyfrio, er mwyn mwynhau garddio a chwarae tywod. Tu fewn, maent yn cynnig profiadau dysgu cyffrous megis ardaloedd chwarae rôl, ardal gelf, mathemateg ac adeiladu. Maent yn sicrhau cydbwysedd da rhwng hyrwyddo diogelwch y plant a'u cefnogi i fentro. Er enghraifft, mae plant yn dewis offer eu hunain i ychwanegu at gwrs rhwystrau.

Mae arweinwyr yn cynnig adnoddau o safon uchel ar gyfer cam datblygiad ac oedran y plant. Maent yn darparu cyfleoedd di-ri i brofi gydag amrediad eang o adnoddau fel llestri go iawn yn yr ardal chwarae rôl. Yn yr awyr agored, maent yn cynnig cyfleoedd i blant gael cyfrifoldebau megis gofalu am blanhigion a blodau. Mae cyfleoedd ym mhob ardal i archwilio, marcio a mentro. Mae plant yn mwynhau adnoddau amlddiwylliannol megis doliau ac ystod o adnoddau arbrofi fel teils siarad a chanu. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn annog datblygiad personol a chymdeithasol y plant yn effeithiol trwy gynnig profiadau ac adnoddau iddynt ddysgu am amrywiaeth ac am y byd. Er enghraifft, mae ganddynt ystod o lyfrau, bwrdd teuluol a sgrin ddigidol sy'n dangos delweddau o Gymru. Mae plant yn cael cyfleoedd i ddathlu diwrnodau penodol fel diwrnod dawns ac yn mwynhau defnyddio byrddau tymhorol megis bwrdd yr haf lle maent yn defnyddio drych i wisgo eu hetiau haul.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth:  Da

Mae gan yr arweinydd weledigaeth gadarn ar gyfer sicrhau bod pob plentyn yn hapus ac yn ddiogel yn y lleoliad. Mae hi'n angerddol am ddarparu'r sylfaen orau posibl iddynt tra eu bod o dan ei gofal. Mae'n  ysbrydoli'r tîm ac mae wedi llwyddo i greu ymdeimlad cryf o berthyn. Mae'n ymroi'n llwyr i waith y ddarpariaeth ac mae lles y plant a'r ymarferwyr yn bwysig iawn iddi.

Mae arweinwyr yn dilyn prosesau recriwtio diogel a chadarn ac mae ganddynt drefniadau effeithiol ar gyfer gwerthuso perfformiad ymarferwyr. Mae arweinwyr yn cefnogi'r ymarferwyr yn llwyddiannus ac yn sicrhau eu bod yn cael cyfleoedd dysgu proffesiynol, hyfforddiant a goruchwyliaeth yn gyson. Fodd bynnag, nid oes system ar waith i sicrhau bod yr arweinydd yn cael cyfarfodydd goruchwylio unigol er mwyn trafod perfformiad ac anghenion datblygiad. Mae arweinwyr yn adolygu eu polisïau yn unol â gofynion ac yn eu gweithredu'n dda. Ni nodwyd unrhyw achos o dorri rheoliadau na safonau gofynnol cenedlaethol yn ystod yr arolygiad

Mae arweinwyr wedi sefydlu gweithdrefnau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant trylwyr ac effeithiol. Maent yn cydweithio'n agos a llwyddiannus ag athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol a'r mudiadau cefnogi. Maent yn ymateb yn bwrpasol i unrhyw argymhellion ar gyfer gwella. O ganlyniad, mae gan y lleoliad ddealltwriaeth dda o'r meysydd i'w datblygu ac o'u cryfderau. Mae'r ymarferwyr yn cydweithio ag asiantaethau allanol ac yn gofyn cyngor ynglŷn â datblygiad plant er mwyn sicrhau bod y plant yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt.

Mae'r arweinydd yn gwneud defnydd da o'r grant datblygu'r blynyddoedd cynnar drwy sicrhau eu bod yn cyflogi ymarferwyr ychwanegol ac yn sicrhau adnoddau addas i gefnogi medrau'r plant. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o'r cyllid, er enghraifft drwy ddatblygu'r  ardal allanol.

Mae gan arweinwyr ac ymarferwyr berthynas gryf â'r rhieni. Maent yn cyfathrebu trwy sgyrsiau rheolaidd ar ddechrau a diwedd y sesiwn. Maent hefyd yn gwneud defnydd da o dudalen gymdeithasol ddigidol i hysbysu rhieni am weithgareddau wythnosol. Maent yn cynnwys y rhieni yn nhaith ddysgu'r plant yn effeithiol, er enghraifft drwy gael y rhieni i greu llyfr "Dyma Fi" sy'n amlinellu diddordebau'r plant a'r hyn sy'n fuddiol i ymarferwyr fod yn ymwybodol ohono.

Mae'r arweinwyr yn datblygu ymwybyddiaeth y plant o'u cynefin yn briodol drwy weithgareddau fel mynd ar deithiau cerdded i'r goedwig gyfagos. Fodd bynnag, prin iawn yw'r cyfleoedd i gydweithio â'r gymuned leol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 16/07/2025